

Datganiad Cenhadaeth Cronfa Bensiwn Dyfed

Ymrwymiad i ddiogelwch a chynaliadwyedd ariannol

Ionawr 2025



Cynnwys

Ein Cenhadaeth	2
Egwyddorion Craidd	2
Nodau Strategol	2
Casgliad	3

Ein Cenhadaeth

Ein cenhadaeth yw darparu cronfa bensiwn ddiogel, gynaliadwy ac effeithlon sy'n rhoi tawelwch meddwl i'n haelodau. Rydym wedi ymroi i reoli'r adnoddau a ymddiriedir ynom gyda'r lefel uchaf o uniondeb, tryloywder ac atebolrwydd.

Egwyddorion Craidd

- **Diogelwch:** Ein prif flaenoriaeth yw sicrhau diogelwch ariannol hirdymor pensiynau ein haelodau. Rydym wedi ymrwmo i wneud penderfyniadau buddsoddi darbodus a rheoli risgiau'n effeithiol i ddiogelu asedau'r gronfa er sefydlogrwydd cyfradd y Cyflogwr.
- **Cynaliadwyedd:** Ein nod yw cynnal cronfa bensiwn gynaliadwy sy'n gallu gwrthsefyll amrywiadau economaidd a newidiadau demograffig. Mae ein hymagwedd yn canolbwyntio ar gydbwysio anghenion aelodau presennol ac aelodau'r dyfodol, gan sicrhau tegwch rhwng y cenedlaethau.
- **Effeithlonrwydd:** Rydym yn ymdrechu i weithredu'r gronfa bensiwn yn effeithlon, gan leihau costau gweinyddol tra'n mwychau buddion i'n haelodau. Ein nod yw darparu gwerth am arian heb gyfaddawdu ar ansawdd y gwasanaeth.
- **Aelod-Sentrig:** Mae ein haelodau wrth wraidd popeth a wnawn. Rydym wedi ymroi i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol, cyfathrebu clir, a gwybodaeth amserol i gefnogi ein haelodau i wneud penderfyniadau gwybodus am eu hymddeoliad.
- **Buddsoddi Cyfrifol:** Rydym yn credu mewn buddsoddi cyfrifol a moesegol. Mae ein strategaeth fuddsoddi yn cynnwys ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) i hyrwyddo cynaliadwyedd ac effaith gadarnhaol.
- **Tryloywder:** Rydym yn ymroddedig i fod yn dryloyw yn ein gwaith. Rydym yn darparu diweddariadau ac adroddiadau i'n haelodau a'n rhanddeiliaid, gan sicrhau eu bod yn cael eu hysbysu'n llawn o berfformiad a llywodraethu'r gronfa.
- **Ymagwedd Gydweithredol:** Rydym yn cydweithio â chyflogwyr, rheoleiddwyr, a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod y gronfa bensiwn yn diwallu anghenion yr holl bartïon cysylltiedig. Ein nod yw adeiladu partneriaethau cryf sy'n cefnogi llwyddiant hirdymor y gronfa.

Nodau Strategol

- **Gwella Profiad Cleifion:** Byddwn yn ceisio gwella'r gwasanaeth rydym yn ei ddarparu i'n haelodau yn barhaus, gan ddefnyddio technoleg ac arloesedd i wella eu profiad a'u hymgysylltiad â'r gronfa.

- Cryfhau Gwytnwch Ariannol: Byddwn yn gweithredu strategaethau i gryfhau gwytnwch ariannol y gronfa, gan gynnwys arallgyfeirio buddsoddiadau ac arferion rheoli risg cadarn.
- Hyrwyddo Llesiant Ariannol: Byddwn yn cynnig cymorth ac adnoddau addysgol i helpu ein haelodau i ddeall eu buddion pensiwn a gwneud penderfyniadau ariannol gwybodus ar gyfer eu hymddeoliad.
- Cynyddu Integreiddiad ESG: Byddwn yn gwella ein hymrwymiad i fuddsoddiad moesegol trwy gynyddu integreiddiad ffactorau ESG i'n prosesau buddsoddi a'n penderfyniadau.
- Meithrin Ymgysylltu â Rhanddeiliaid: Byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid yn rheolaidd i ddeall eu hanghenion a'u safbwyntiau, gan feithrin amgylchedd cydweithredol sy'n cefnogi amcanion y gronfa.

Casgliad

Mae Cronfa Bensiwn Dyfed yn darparu pensiwn diogel a chynaliadwy i'n haelodau. Trwy ymrwymo i'n hegwyddorion craidd a'n nodau strategol, rydym yn anelu at ddarparu cronfa bensiwn sydd nid yn unig yn diwallu anghenion cyfredol ein haelodau ond sydd hefyd yn sicrhau eu llesiant ariannol hirdymor. Byddwn yn ymdrechu'n barhaus i arloesi, gwella ac addasu ym maes pensiynau, sy'n newid o hyd, gan ddefnyddio ein cenhadaeth fel sail i wasanaethu ein haelodau gyda rhagoriaeth ac uniondeb.